**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JH/1157/25

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

20 Mai 2025

Annwyl Jenny

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Craffu ar ôl deddfu**

Wrth inni ddathlu 10 mlynedd o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf"), rwy'n croesawu eich ymchwiliad i waith craffu ar ôl deddfu ar y Ddeddf. Rwy'n ymwybodol bod yr angen am waith craffu ar ôl deddfu ar y Ddeddf wedi cael ei gydnabod trwy adroddiadau a dadleuon dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn fwy diweddar, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru eu hadroddiadau statudol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Fel rhan o'u hargymhellion maent hwythau hefyd yn ceisio adolygiad ar ôl deddfu. Ym mis Mehefin, byddaf yn gosod adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn y Senedd. Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, byddaf yn gosod Datganiad Ysgrifenedig yn darparu ymateb o sylwedd gan Lywodraeth Cymru i'r ddau adroddiad.

Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer gwerthuso'r Ddeddf yn y dyfodol, ymunodd cymrawd polisi o'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol â'r Is-adran Dyfodol Cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru er mwyn dylunio gwerthusiad o'r Ddeddf a chyflwyno cam cyntaf yr hyn sy'n debygol o fod yn werthusiad aml-flwyddyn. Rwy'n disgwyl ystyried adroddiad o'r gwaith hwn yn nhymor yr hydref.

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.